# TAFLEN FFEITHIAU 4: **SUT BYDD SEFYDLU'R *COMISIWN ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL* YN EFFEITHIO AR BRENTISIAETHAU?**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Beth yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil?

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY), sef corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Bydd y Comisiwn, a fydd yn weithredol yn 2024, yn gyfrifol am ariannu, goruchwylio, ansawdd a rheoleiddio addysg drydyddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Addysg bellach (AB), gan gynnwys colegau a chweched dosbarth mewn ysgolion
- Addysg uwch (AU), gan gynnwys ymchwil ac arloesi
- Addysg i oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned
- Prentisiaethau a hyfforddiant.

## Gweledigaeth Strategol

Gan gydweithio, byddwn yn darparu sector Addysg Drydyddol ac Ymchwil rhagorol yng Nghymru, sy'n fwy ymatebol, a theg ac yn blaenoriaethu buddiannau dysgwyr ac yn cyfrannu at ffyniant cenedlaethol. Dymunwn weld system gydgysylltiedig yng Nghymru sy'n hawdd i bawb ei deall, sy'n cael ei gwerthfawrogi gan y cyhoedd ac sy'n creu cymdeithas fedrus iawn, sy'n taclo anghydraddoldebau ac sydd ag enw da iawn yn fyd-eang am addysg, hyfforddiant, ymchwil ac arloesi ac sy'n seiliedig ar genhadaeth ddinesig.

Un o ddyletswyddau strategol y Comisiwn yw cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol. Bydd gan y Comisiwn y grym i sicrhau bod ein sector addysg drydyddol ac ymchwil yn cael ei drefnu i ddiwallu anghenion dysgwyr, yr economi a chyflogwyr.

## Diffiniad newydd, clir o brentisiaeth yng Nghymru

Nid oedd y fframwaith deddfwriaethol blaenorol ar gyfer prentisiaethau wedi'i lunio yn benodol i Gymru ac nid yw bellach yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer anghenion sgiliau cyflogwyr a'r dysgwyr, a oedd yn newid yn gyflym.

Bydd system brentisiaethau newydd i Gymru yn rhoi diffiniad clir o brentisiaeth yng Nghymru, sydd yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion ein dysgwyr a'n cyflogwyr, ac yn cefnogi datblygu economi Cymru mewn ffordd gadarn ac arloesol.

## Fframweithiau prentisiaeth

Fel rhan o'r manylebau yr ymgynghorir arnynt ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, bydd gan y Comisiwn hyblygrwydd i ddatblygu fframweithiau prentisiaethau newydd, i ddirprwyo'r gwaith o ddatblygu fframweithiau i gyrff eraill, ac i sicrhau bod prentisiaethau presennol yn gyfoes ac yn diwallu anghenion am sgiliau sy'n newid o hyd. Byddant yn gwneud hyn drwy ymgysylltu'n drylwyr â busnesau, cyflogwyr, darparwyr dysgu, a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

Bydd fframweithiau prentisiaethau yn nodi'r gofynion ar gyfer cwblhau prentisiaeth yng Nghymru mewn galwedigaeth benodol.

Bydd y Comisiwn yn cadw cofrestr o holl fframweithiau'r prentisiaethau sy'n cael eu cymeradwyo i'w defnyddio, a bydd yn gyfrifol am adolygu a chynnal y fframweithiau a gyhoeddir ac am ardystio prentisiaethau.

## Cyllid

Hyd yma mae prentisiaethau sy'n is na lefel gradd wedi'u hariannu gan Weinidogion Cymru drwy ymarfer tendro wedi'i gaffael yn llawn, tra bod prentisiaethau gradd wedi'u hariannu gan Weinidogion Cymru drwy Gyngor Cyllido Uwch Cymru (CCAUC) drwy gynllun grant. Wrth symud ymlaen bydd y Comisiwn yn penderfynu sut y caiff darpariaeth prentisiaethau ei chomisiynu a'i hariannu.

## Cydweithio

Yn sgil sefydlu'r Comisiwn, bydd gan un sefydliad gyfrifoldeb dros sicrhau bod gan economi Cymru y sgiliau angenrheidiol i fusnesau a chymunedau ffynnu, gan annog cydweithio agos rhwng y Comisiwn, darparwyr, a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i lywio'r gwaith cynllunio, ariannu a chynllunio strategol.

Wrth i gynnig prentisiaethau Cymru barhau i ddatblygu, bydd y Comisiwn yn cefnogi colegau, darparwyr hyfforddiant, prifysgolion, a chyflogwyr i gydweithio'n agosach â'i gilydd i ddatblygu llwybrau cydlynol drwy'r system brentisiaethau.

## Trefniadau trosiannol

Dechreuodd y trefniadau cytundebol presennol ar 1 Awst 2021 ac maent yn parhau tan 31 Gorffennaf 2025. Bydd y cyfrifoldeb am y contractau hyn yn trosglwyddo o Weinidogion Cymru i'r Comisiwn ar ôl iddo ddod yn weithredol. Mae opsiwn o hyd i estyn y cytundebau yn flynyddol tan 31 Gorffennaf 2027, pe bai'r Comisiwn yn penderfynu gwneud hynny.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49228